cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd



Rhif 67
Rhagfyr 2012

Golygyddol

Gwynn Williams

Mae'r siopau eisoes yn ein hatgoffa fod Nadolig arall gerllaw. Felly mae'n bryd i ni fel eglwysi baratoi i wneud y mwyaf o'r cyfle blynyddol hwn i atgoffa pobl am ddyfodiad mab Duw i'n byd i fod yn Waredwr. Er bod y gymdeithas seciwlar yn gwneud ei gorau glas i symud Crist allan o'r Nadolig, er enghraifft trwy alw'r ŵyl yn Ŵyl Ganol Gaeaf, fel y gwna rhai cynghorau lleol, eto mae'n amlwg bod gan lawer o bobl ddiddordeb mawr yn neges Cristnogaeth o hyd. Mewn blynyddoed diweddar, er enghraifft, daeth yn arfer i Undebau Cristnogol yn y prifysgolion gynnal oedfaon carolau gan weld cannoedd o fyfyrwyr yn eu mynychu, boed iddynt gael eu cynnal mewn neuaddau mawr, eglwysi cadeiriol neu hyd yn mewn stadiwm pêl-droed. Dyna gyfle gwych i'r siaradwr sôn am enedigaeth ceidwad y byd.

Fel y gwyddom, nid oes gorchymyn penodol yn yr ysgythur i ni gofio genedigaeth Iesu Grist. Mae hyn yn wahanol wrth gwrs i'w farwolaeth, y gorchmynnir ni i'w chofio trwy ordinhad Swper yr Arglwydd. Eto mae'n amlwg bod awduron yr efengylau, wrth iddynt ysgrifennu eu hefengylau, adrodd yr hanes fel na fyddai'r digwyddiadau eraill am Grist yn mynd yn angof. Manteiswn felly ar drefniad y calendr eglwysig i gofio'n arbennig adeg y Nadolig am ei ymgnawdoliad rhyfeddol.

Wrth i ni ddarllen hanesion trist ein dydd, sylweddolwn mai yr un yw problem y ddynoliaeth erioed, sef methu caru Duw a charu cyd-ddyn. Cyhoeddwn felly fod maddeuant i'w gael trwy farwolaeth yr Un a gymerodd gnawd dynol yn faban bach ym Methlehem.

Nadolig llawen a bendithiol felly i'n holl ddarllenwyr a gweddïwn y gwelwn, yn y flwyddyn newydd, adfywiad o waith Duw yn ein tir.

Ydych chi'n jygl

Trystan Hallam

Y broblem

Byddwn i'n fodlon mentro fod pob un ohonom yn gwybod am fywyd yn y syrcas: rydym ni i gyd yn gwybod am fywyd y jwglwr. Dyna lle'r ydym ni ar *unicycle* bywyd, ac mae'r bêl gyntaf yn cael ei thaflu tuag atom – gwaith. Mewn gwirionedd mae mwy nag un bêl yma, oherwydd pa waith erbyn heddiw sy'n dechrau am 9.00 ac yn gorffen am 5.00? Mae cyflogwyr yn gofyn cymaint mwy oddi wrth eu gweithwyr – gwaith ychwanegol gartre, cyrsiau hyfforddi, arolygwyr yn gwerthuso'ch gwaith yn gyson. Felly dim ond wrth sôn am fyd gwaith a dyma ni'n jyglo mwy nag un bêl yn barod.

Gadwch i mi daflu pêl (neu beli!) arall atoch chi – y teulu. Mae angen amser arnom i feithrin perthynas ac i fwynhau ein teuluoedd. Rhaid buddsoddi amser ar adegau da mewn bywyd, pan nad yw amgylchiadau'n anodd. Ond pan fydd problemau yn y teulu, neu afiechyd, mae'r gofynion ar ein hamser yn cael eu treblu.

Ac wedyn beth am y capel? Sut mae peidio ag esgeuluso cyfarfodydd y Sul, a'r cyfarfodydd wythnosol? Ac nid y cyfarfodydd yn unig, ond ynghlwm â hynny y bobl. Sut ydw i fod i garu'r bobl – fy mrodyr a'm chwiorydd yn y ffydd? Mae hyn i gyd heb sôn am fy mywyd defosiynol i gartre

wr da?

– darllen fy Meibl, gweddïo a phori mewn llyfrau Cristnogol.

Ydi eich pwysau gwaed wedi dechrau codi eto? Mae jyglo'n waith anodd! Ac mae angen amser hamdden arnom ni hefyd. Ond mor aml mae'n hamser hamdden yn ychwnaegu at y pen tost. Rwyf eisoes fel rhywun o'r syrcas, yn jyglo gwaith, teulu, capel – peidiwch â thaflu pêl amser hamdden ataf i hefyd neu bydda i'n siŵr o ollwng y peli eraill...

Yr egwyddor fawr

Beth yr ydym i fod i'w wneud pan fydd y peli'n dechrau disgyn i'r llawr? Yr ateb yw, maen rhaid newid y canol. Hynny yw, yn lle meddwl mai fi sydd yn y canol – a bod y gwaith, y teulu, y capel a'm hamser hamdden o dan fy reolaeth i, ac ar fy nghyfer i – mae angen i mi sylweddoli mai'r Arglwydd sydd i fod yn y canol. Meddai'r Apostol Paul, 'Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw'r Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.' (Colosiaid 4:17)

Beth oeddech chi'n disgwyl ei ddarllen mewn erthygl ar ddefnyddio amser yn ddoeth? Amserlen? Dyma sut mae gwneud: Dydd Llun 7:30 a.m., darllen y Beibl; 8:00 a.m., brecwast; 8:15 a.m., bws i'r gwaith, ac yn y blaen. Nawr mae'n bwysig cael trefn ar ein hamser – y manylion – ond mae'n bwysicach cael yr egwyddor fawr yn ei lle, fod pob dim yr ydym yn ei wneud er clod a mawl i'r Arglwydd. Rydym yn hoffi rhoi ein hamser mewn bocsys (neu beli bach) taclus! Dyma amser y gwaith, dyma amser y teulu, amser y capel, amser hamdden – ac wedyn awn ati fel lladd nadredd i jyglo'r holl weithgareddau hyn. Ac rydym yn methu mor aml, am ei bod yn amhosibl cadw ein llygaid ar gynifer o beli, a chadw'r peli yna i gyd yn yr awyr yr un pryd.

Nawr tra ei bod yn bwysig cael trefn, strwythur a blaenoriaethau, mae'n hanfodol cofio mai un bwriad sydd mewn gwirionedd, sef gogoneddu'r Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw y Tad, drwyddo Ef. Felly pan fyddaf yn y gwaith, beth yw'r bwriad?

Sicrhau fod pawb yn meddwl fy mod i'n ffantastig yn fy swydd? Nage, gogoneddu Crist. Yr un peth gyda'r teulu: efallai na fyddaf yn medru datrys yr holl broblemau, ond rwy'n diolch amdanynt. Ac nid rhyw slot ar yr amserlen yw'r capel a'm bywyd defosiynol chwaith. Wrth gwrdd â Christnogion eraill mewn addoliad, a gwrando/darllen y Gair rwy'n cael mynegi'n gyhoeddus yr hyn rwyf wedi bod yn ei wneud yn y gwaith a chyda fy nheulu drwy'r wythnos. Ac wrth gwrs mae'r un peth yn wir yn achos fy amser hamdden. Gyda'r Arglwydd yn y canol, nid *me time* yw amser hamdden. Nage, mae'r siopa, gwylio chwaraeon, mynd i'r *gym* ac yn y blaen yn fynegiant o'm diolchgarwch i Dduw.

Gyda'r Arglwydd yng nghanol fy mywyd i, dydy fy amser byth yn cael ei wastraffu. Yn ogystal does dim rhaid i'm pwysau gwaed godi, os byddaf yn ddidwyll yn methu cyflawni popeth. Os nad ydw i'n gallu gorffen **pob dim** yn y gwaith – o achos fod rhaid i mi dreulio amser gyda'r teulu, er enghraifft – does dim angen i mi deimlo'n euog. Rwyf wedi bod yn dwyn gogoniant a diolchgarwch i Dduw wrth dreulio amser gyda'r teulu. Gwir fyddai dweud yr un peth am y gweithgareddau eraill hefyd.

Y rhyddhad

Gyda'r egwyddor fawr o'r Arglwydd yng nghanol ein bywydau, daw rhyddhad mawr. Y peth cyntaf sy'n rhyddhad i mi yn sicr yw sylweddoli nad fi sy'n rheoli fy mywyd. Dydy fy amser i ddim yn troi o'm hamgylch i – ond yn hytrach yn troi o amgylch y ffaith fod Duw i gael ei ogoneddu. Sut mae hyn yn dod â rhyddhad? Am nad oes rhaid chwysu chwartiau yn jyglo amser, gan ddisgwyl unrhyw funud i'r peli syrthio i'r llawr. Na, mae bywyd bob tro o dan reolaeth am mai'r unig egwyddor yw gogoneddu Crist a diolch i Dduw ein Tad. Wrth i ni geisio dwyn mawl i Dduw, mae'n hamser ni **bob amser** yn mynd i fod yn werthfawr ac yn gynhyrchiol.

Cardiau Nadolig

Gwydion a Catrin Lewis

Ydych chi'n berson cardiau Nadolig? Mae rhai ohonom ni wrth ein bodd yn dewis cardiau Nadolig i'w prynu neu i'w gwneud er mwyn anfon cyfarchion at deulu a ffrindiau. Rydyn ni'n aros am sŵn yr amlenni'n disgyn drwy'r drws o ddechrau mis Rhagfyr ymlaen. I eraill ohonom mae'r holl beth yn teimlo'n drafferthus ac yn wastraff arian. Neu efallai eich bod chi'n ymwrthod yn llwyr â'r holl beth.

- Mae'n debyg yr anfonwyd tua 700 miliwn o gardiau ym Mhrydain yn 2010.
- Mae'r nifer yn disgyn wrth i e-gardiau dyfu yn eu poblogrwydd, yn enwedig ymhlith y genhedlaeth iau.

Llun gan Patricia Hofmeester/Shutterstock.com

- Credir bod tua £50 miliwn yn cael ei godi i achosion da ym Mhrydain trwy werthiant cardiau elusennol.
- Dim ond 15% o'r holl gardiau Nadolig a werthir sy'n cael eu prynu gan ddynion!

Dyna ni'r ffeithiau, ond beth am hanes y cerdyn Nadolig? Er bod rhai cardiau crefyddol yn cael eu danfon cyn belled yn ôl â'r 17eg ganrif, mae'n debyg i boblogrwydd y peth dyfu ar ôl i weithiwr sifil o'r enw Syr Henry Cole gomisiynu artist i lunio cerdyn yn 1843. Cynhyrchwyd mil ohonynt i'w gwerthu am swllt yr un. Roedd tri phanel i'r cerdyn – yr un canol yn darlunio teulu yn mwynhau gwledd Nadolig, a'r ddau arall yn dangos pobl yn gofalu am y tlawd. Mae 12 o'r cardiau hynny wedi goroesi, a gwerthwyd un ohonynt am £22,500 yn 2001.

Tyfodd poblogrwydd cardiau Nadolig wrth i ddulliau argraffu wella a'r cardiau ddod yn rhatach i'w prynu. Yn ystod y cyfnod yma roedd y mwyafrif o gardiau yn dangos rhyw agwedd ar stori feiblaidd y

Nadolig, er bod hynny'n aml yn cael ei ddarlunio mewn ffordd ramantaidd. Yn Oes Fictoria y dechreuwyd arddangos robin goch ar gardiau, a hynny am fod postmyn y cyfnod yn gwisgo dillad coch ac wedi derbyn y llysenw 'Robins'.

Mae steil cardiau Nadolig yn gallu cael ei ddefnyddio fel rhyw fath o thermomedr o gyflwr crefyddol gwlad mewn cyfnod arbennig. Mae'n siŵr y gallwch ddweud llawer am berson drwy'r math o gardiau y mae'n eu hanfon. Erbyn heddiw mae cardiau o bob math yn darlunio popeth o hanes y geni i gartŵn Disney, o eglwys yn yr eira i jôc, o dorch o gelyn i Siôn Corn meddw! Mae'n debyg bod hynny'n adlewyrchu'r amrywiaeth mawr yn agwedd pobl at yr Ŵyl. Mae yna gerdyn ar werth yn rhywle i siwtio pob un ohonom.

Mwynhewch eich cardiau Nadolig o bob lliw a llun (os ydych chi'n berson cardiau Nadolig). Ond beth bynnag a wnewch chi, peidiwch â cholli pwynt yr Ŵyl yn y lle cyntaf. Nid gyda Syr Henry Cole y dechreuodd yr holl beth mewn gwirionedd, ond gyda'r Bachgen a anwyd. Mae E'n berffaith addas i bob un ohonom. Iesu oedd ei enw, ac ystyr ei enw yw 'ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau'. Daeth Iesu Grist i'r byd er mwyn delio â phopeth sy'n ein gwahanu ni oddi wrth Dduw, ac er mwyn i ni allu llawenhau ynddo Ef, Emaniwel, 'Duw gyda ni'. Gwnewch gyfle dros gyfnod y Nadolig i ddarllen yr hanes cyfarwydd unwaith eto. Cewch hyd iddo ym mhenodau cyntaf llyfr Mathew a Luc yn y Testament Newydd.

"Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Rhufeiniaid 5.1

Holi Hwn a Hon

Emyr

Sut dest ti'n Gristion?

Rwy'n cofio credu o oedran ifanc iawn fod yr hyn roedd y Beibl yn ei ddweud yn wir – roeddwn i'n gallu gweld ei fod yn esbonio pam y mae'r byd fel y mae. Ond rwy hefyd yn cofio penderfynu'n fuan iawn nad oeddwn i eisiau dod yn Gristion a dilyn Iesu Grist nes fy mod i wedi cael 'byw' ychydig – er fy mod i'n ddigon parod i annog rhai eraill i gredu! Wedi gorffen yn yr ysgol cymerais flwyddyn allan i deithio'r byd. Tra yn Ariannin a'r Wladfa profais Dduw yn gweithio yn fy mywyd mewn ffordd ryfeddol. Am y tro cyntaf erioed roeddwn i **eisiau** darllen y Beibl. Ffeindiais fy hun yn gweddïo ar Dduw am fwy o amser er mwyn i mi fod yn sicr. Wedi ychydig wythnosau o hyn fe ganiataodd yr Arglwydd i mi sylweddoli mor haerllug, styfnig a rhagrithiol roeddwn wedi bod, ac mai'r unig beth roeddwn i'n ei haeddu oedd cael fy nghosbi am ei wrthod gyhyd. Gofynnais iddo faddau i mi trwy'r ffaith fod Iesu Grist wedi marw ar y groes yn fy lle. Ers hynny, er bod pethau wedi bod yn anodd ar adegau, dydw i ddim yn gallu gwadu'r gwirionedd fod Duw yn bodoli, a'i fod Ef yn fy ngharu.

Pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen?

Rwy wrth fy modd yn darllen llyfrau sy'n fy helpu i ddeall

James

mwy am Iesu Grist, yr hyn mae Ef wedi ei wneud drosof fi, a'r effaith mae hynny i fod i'w chael ar fy mywyd. Mae'n help pan fo awduron yn gallu gwneud hyn mewn ffordd syml, afaelgar a difyr – er enghraifft Mike Reeves a Robert Letham. Rwy hefyd yn hoff iawn o lyfrau sy'n dangos sut mae holl rannau'r Beibl yn cysylltu â'i gilydd. Pan mae'n dod i lyfrau ysgafnach, fodd bynnag, fe fydd y mwyafrif o bobl yn gwybod fy mod i'n ychydig o *geek*, gyda holl weithiau Tolkien yn cymryd lle blaenllaw ar fy silff lyfrau.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud i ymlacio?

Does dim llawer o bethau rwy'n ei fwynhau'n fwy nag eistedd i lawr gyda paned o goffi neis a chroesair. Ond er mawr syndod, efallai, i unrhyw un oedd yn fy adnabod pan oeddwn yn yr ysgol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwy wedi dechrau cymryd diddordeb mewn chwarae pêl-droed a gwneud gwaith pren.

Beth sy'n gymorth i ti yn dy gerddediad ysbrydol?

Rwy'n gorfod f'atgoffa fy hunan yn aml fy mod i'n llwyr ddibynnol ar ras Duw, ac mae fy mherthynas ag Ef bob amser yn seiliedig ar Iesu Grist – mae hyn yn fy helpu i osgoi anobeithio ac ymfalchïo.

Un o'r pethau sy'n anogaeth enfawr i mi o hyd yw clywed pobl eraill yn yr Eglwys yn tystio i'r gwaith mae Duw yn ei wneud yn eu bywyd nhw ar hyn o bryd, a'r ffordd mae E'n eu cynnal mewn gwahanol sefyllfaoedd. Byddwn i wrth fy modd petawn i, ac eraill, yn fwy parod i rannu â'n gilydd fel y gallwn weddïo yn fwy effeithiol dros ein gilydd.

Pa adnod / emyn / cân sy'n arbennig iti?

Pan ddes i'n Gristion fe dderbyniais i e-bost gan ffrind da oedd wedi pwyso arnaf yn aml yn y gorffennol i sylweddoli peth mor ddifrifol oedd gwrthod Iesu Grist. Yn y neges werthfawr

honno cyfeiriodd at sawl adnod roedd e'n meddwl y byddai'n help. Yr un a neidiodd allan ataf i ar y pryd, ac sydd wedi aros gyda fi ers hynny, yw Iago 1:5, 'Ac os oes un ohonoch yn ddiffygiol mewn doethineb, gofynned gan Dduw, ac fe'i rhoddir iddo, oherwydd y mae Duw yn rhoi i bawb yn hael a heb ddannod.' I Gristion ifanc, unig, annoeth, yng nghanol taith o amgylch y byd, roedd y geiriau hynny'n gysur arbennig. Ond y gwir yw eu bod nhw yr un mor werthfawr heddiw.

Sut ddest ti i wybod bod Duw yn dy alw di i fod yn weinidog?

Fel fy mhrofiad o ddod yn Gristion, roedd hyn hefyd yn fater a gymerodd amser. Wedi credu yn Iesu Grist sylweddolais yn fuan iawn nid yn unig fod angen newid y ffordd roeddwn i'n byw, ond hefyd bod fy holl bwrpas mewn bywyd wedi newid. Y cwestiwn yn awr oedd, 'Beth mae Duw am i mi ei wneud?' Er fy mod i'n ymwybodol ei bod yn bosibl y byddwn yn cael fy ngalw i weinidogaeth lawn amser, doedd dim sicrwydd o hynny ar y pryd.

Roeddwn i eisoes wedi cael fy nerbyn i astudio ym Mhrrifysgol Aberystwyth ac felly es i yno am dair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw ces i gyfle i ymarfer rhai o'r doniau roedd yr Arglwydd wedi eu rhoi i mi, ac roeddwn yn credu'n gynyddol y byddwn i, ar ryw adeg yn ystod fy mywyd, yn cael fy ngalw i waith Cristnogol llawn amser. Dros y blynyddoedd dilynol cafodd y dyhead yma i bregethu ei gadarnhau gan lawer o Gristnogion aeddfed a duwiol.

Yn y diwedd penderfynais, gyda chefnogaeth yr Eglwys, fynd i astudio yn Ysgol Ddiwinyddol Efengylaidd Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fy ngweddi oedd y byddai Duw naill ai yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch mynd i'r weinidogaeth, neu y byddai'n defnyddio'r amser yma o astudio i'm gwneud yn fwy defnyddiol fel aelod o'r Eglwys. Yn ei ras, rhoddodd Duw sicrwydd i mi yn ystod y diwrnodau cyntaf, mai dyma oedd ei fwriad ar fy nghyfer.

Cân: I’r Drindod

I fiwsig ei alwad
Fe ddawnsiodd y cread,
A’r Crëwr yn gynnes
A’i dynnodd i’w fynwes,
Nid damwain yw’n dyddïau,
Mae’r byd yn ei freichiau.

Y bachgen bach, Iesu,
A ddaeth i deyrnasu,
Efe ein Gwaredwr,
A gipiodd y cipiwr
A gwystlon yr angau
Rhyddhawyd i’r golau.

Mae Ysbryd mabwysiad
Yn Ysbryd y cariad,
Sy’n clymu’n serchiadau,
A datod ein hofnau,
Nid cyffur dros amser,
Dros byth mae ei bleser.

Noel Gibbard

Newyddion

Sefydlu Steffan

Daeth tyrfa fawr ynghyd i gwrdd sefydlu Steffan Jones yn weinidog ar Eglwys Mount Elim Potardawe ar ddiwedd mis Medi. Gwynn oedd yn pregethu, a'i destun oedd Salm 11:3, 4: 'Os dinistrir y sylfeini, beth a wna'r cyfiawn? Y mae'r Arglwydd yn ei deml sanctaidd.' Roedd hi'n hyfryd gweld Cristnogion o bob rhan o Gymru yno, ac roedd cynrychiolaeth o'r eglwysi sydd wedi dylanwadu'n fawr ar Steffan a Catherine – yn Rhydaman, Abertawe, Caerdydd ac Aberystwyth – yn amlwg iawn.

O'r cannoedd oedd yno, dim ond 13 o'r rheiny sydd yn aelodau ym Mhontardawe. Wrth i Steffan a Catherine weinidogaethu mewn sefyllfa sy'n ymddangos mor anodd, roedd neges Gwynn yn gysur mawr. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau.

Dewi George

Llun gan Rhys Llwyd

Aethom ar drip capel ym mis Medi, a mwynhau diwrnod o gwmni braf ym Mharc Margam. Diolch i Bethan George am drefnu.

Bu criw o blant yn cael 'sbri' yn y capel dros ddau fore cyntaf hanner tymor Hydref, wrth ganu, gwneud crefftau, chwarae gêmau a chlywed straeon am fywyd y brenin Dafydd. Diolch i Wncwl Trystan, Wncwl Emyr a phawb arall fu'n helpu gyda'r clwb.

Llongyfarchiadau i Gwydion a Catrin Lewis ar gael eu hapwyntio yn wardeniaid nesaf Bryn-y-Groes. Byddwn yn eu colli, a Bedwyr, yn fawr wrth iddyn nhw symud i'r Bala haf nesaf.

Croeso nôl i David ac Anne James Morse. Braf oedd clywed hanes eu taith diweddaraf i Sbaen ac am y ffordd y mae Duw yn parhau i'w cynnal a'u defnyddio.

Llongyfarchiadau i Dewi a Leri a'r teulu ar enedigaeth Dyfan Arthur ar ddechrau mis Medi.

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mercher | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Trefniadau Nadolig...

Nos Sul - Rhagfyr 9 | Oedfa garolau oedolion

Nos Sul - Rhagyfr 16 | Oedfa garolau yn yr Eglwys Newydd

Pnawn Sadwrn - Rhagfyr 22 | Parti Nadolig | 2.00 - 3.00

Bore Sul - Rhagfyr 23 | Gwasaneth carolau i blant

Nos Sul - Rhagfyr 23 | Oedfa anffurfiol

Bore Sul - Rhagfyr 25 | Gwasanaeth Dydd Nadolig

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org